**DATGANIAD O DÂL AM WASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL A CHYFARWYDDYDAU FFIOEDD**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 76, 77 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) ("Deddf 2006") yn gwneud y penderfyniad a ganlyn ynghylch y tâl sydd i'w dalu i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol ac yn rhoi'r cyfarwyddydau a ganlyn mewn cysylltiad â'r tâl sydd i'w dalu i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau archwilio llygaid o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 a ffioedd eraill sy'n daladwy i'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau hyn.

Cyn gwneud y penderfyniad hwn o dan adrannau 76 a 77 o Ddeddf 2006 mewn perthynas â'r tâl sydd i'w dalu i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â'r sefydliad a gydnabyddir ganddynt fel un sy'n cynrychioli contractwyr sy'n darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol.

## Rhan 1

Enwi, Cychwyn a Dehongli

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—1) Enw'r cyfarwyddydau a'r penderfyniad hyn ar y cyd yw Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd ("y Datganiad a'r Cyfarwyddydau Ffioedd").

(2) Daw'r Datganiad a'r Cyfarwyddydau Ffioedd i rym ar 11 Tachwedd 2025 a deuant yn effeithiol o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

(3) Yn y Datganiad a'r Cyfarwyddydau Ffioedd hyn–

ystyr "arweinydd optometreg" ("*optometric lead*") yw'r person a etholir gan gydweithredfa optometreg i'w chynrychioli o fewn clwstwr gofal sylfaenol;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 11(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "claf" ("*patient*") yw person y mae contractwr wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol neu wasanaethau archwilio llygaid iddo;

ystyr "clwstwr gofal sylfaenol" ("*primary care cluster*") yw grŵp o ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi cytuno i gydweithio i gyflenwi gwasanaethau gofal sylfaenol ar draws ardal ddaearyddol benodedig;

ystyr "contractwr" ("*contractor*") yw person sydd wedi ymgymryd â darparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol ac y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y rhestr offthalmig;

ystyr "cydweithredfa optometreg" ("*optometry collaborative*") yw grŵp o gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau offthalmig sylfaenol o fewn ardal ddaearyddol yr un clwstwr gofal sylfaenol;

(1) 2006 p. 42.

ystyr "cydweithredfa optometreg berthnasol" ("*relevant optometry collaborative*") yw'r gydweithredfa optometreg y mae'r contractwr yn darparu gwasanaethau offthalmig sylfaenol yn ei hardal;

ystyr "DPP" ("*CPD*") yw Datblygiad Proffesiynol Parhaus;

ystyr "GOC" ("*GOS*") yw Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol;

ystyr "Gwasanaethau Archwilio Llygaid" ("*Eye Examination Services*") yw'r gwasanaethau y mae rhaid i gontractwr eu darparu o dan baragraff 24 o Atodlen 4 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023;

ystyr "Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol" ("*General Ophthalmic Services*") yw'r gwasanaethau y mae rhaid i gontractwr eu darparu o dan baragraff 23 o Atodlen 4 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023;

ystyr "Gwasanaethau Offthalmig Sylfaenol" ("*Primary Ophthalmic Services*") yw, gyda'i gilydd-

(i) Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, a

(ii) Gwasanaethau Archwilio Llygaid;

ystyr "optegydd corfforedig" ("*corporate optician*") yw corff corfforedig sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o gyrff corfforedig a gynhelir o dan adran 9 o Ddeddf Optegwyr 1989(**2**), sy'n cynnal busnes fel optometrydd;

ystyr "optegydd cyflenwi" ("*dispensing optician*") yw person sydd wedi ei gofrestru fel optegydd cyflenwi yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 7 o Ddeddf Optegwyr 1989 (cofrestr optegwyr);

ystyr "optegydd lensys cyffwrdd" ("*contact lens optician*") yw person sydd wedi ei gofrestru fel optegydd cyflenwi yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 7 o Ddeddf Optegwyr 1989 (cofrestr optegwyr) gyda chofnod am arbenigedd mewn lensys cyffwrdd;

ystyr "optegydd lensys cyffwrdd achrededig Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (GOCC) 2" ("*Wales General Ophthalmic Services (WGOS) 2 accredited contact lens optician*") yw optegydd lensys cyffwrdd sydd wedi ei achredu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ymgymryd ag elfennau o'r gwasanaeth archwilio llygaid;

ystyr "optometrydd" ("*optometrist*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o optometryddion a gynhelir o dan adran 7 (cofrestr optegwyr) o Ddeddf Optegwyr 1989;

ystyr "Optometrydd-ragnodydd Annibynnol" ("*Independent Prescribing Optometrist*") yw person sydd wedi ei gofrestru fel optometrydd yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 7 o Ddeddf Optegwyr 1989 (cofrestr optegwyr) gyda chofnod am arbenigedd mewn rhagnodi annibynnol;

ystyr "rhestr offthalmig" ("*offthalmic list*") yw'r rhestr a ddiffinnir yn rheoliad 10(2)(a) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023;

ystyr "ymarferydd meddygol offthalmig" ("*ophthalmic medical practitioner*") yw person a gydnabyddir o dan reoliad 9 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 ac Atodlen 2 iddynt.

## Rhan 2

Ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwasanaethau Archwilio Llygaid

(**2**) 1989 p. 44.

### Ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwasanaethau Archwilio Llygaid

**2.** Y ffi sy'n daladwy i gontractwr am ddarparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yw £46.20.

**3.** Mae'r ffioedd archwilio llygaid sy'n daladwy i gontractwr am ddarparu Gwasanaethau Archwilio Llygaid fel a ganlyn: mae GOCC 2 Band 1 yn £72.88; GOCC 2 Band 2 yn £55.18; a GOCC 2 Band 3 yn £27.07.

### Ffioedd ymweliadau cartref

**4.** Y ffioedd sy'n daladwy i gontractwr, am ymweliad cartref y GIG a gynhaliwyd gan y contractwr yw—

£42.60 ar gyfer y claf cyntaf a'r ail glaf; a

£10.66 ar gyfer y trydydd claf a chleifion eraill.

### Amodau sydd ynghlwm wrth dalu ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Gwasanaethau Archwilio Llygaid ac ymweliadau cartref

**5.** Dim ond os yw'r contractwr yn bodloni'r amodau a ganlyn y mae hawliad am ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Gwasanaethau Archwilio Llygaid ac ymweliadau cartref, neu unrhyw ran ohonynt, yn daladwy—

(a) rhaid i'r contractwr ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth nad oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol ond y mae arno ei hangen, sef gwybodaeth sydd naill ai gan y contractwr neu y gellid yn rhesymol disgwyl iddo gael gafael arni, er mwyn cyfrifo'r taliad sy'n daladwy i'r contractwr,

(b) rhaid i'r contractwr gadw cofnodion cywir o'r holl weithgarwch Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Gwasanaethau Archwilio Llygaid ac ymweliadau cartref yr ymgymerir ag ef, gan gynnwys gofal llygaid brys ac argyfwng, ac

(c) rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir gan y contractwr i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â'r paragraff hwn fod yn gywir hyd eithaf gwybodaeth a chred y contractwr.

**6.** Os bydd y contractwr yn torri unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff 5, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, o dan amgylchiadau priodol, beidio â thalu ffi Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Gwasanaethau Archwilio Llygaid neu ymweliadau cartref, neu unrhyw ran ohoni, sy'n daladwy fel arall.

## Rhan 3

Lwfans DPP 2024

**7.**—(1) Yn y paragraff hwn—

Ystyr "lwfans DPP" ("*CPD allowance*") yw'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn berthnasol mewn cysylltiad â'r ymarferwyr a restrir:

Optometryddion £763.29

Optometryddion-ragnodwyr Annibynnol £1,529.26

Optometrydd â Chymhwyster Uwch mewn Retina Meddygol £1,375.26

Optometrydd â Chymhwyster Uwch mewn Glawcoma £1,375.26

Optometrydd Golwg Gwan £1,375.26

Optegwyr cyflenwi £422.63

Optegwyr lensys cyffwrdd £459.11

Optegwyr lensys cyffwrdd achrededig GOCC 2 £561.44

Optegydd Cyflenwi Golwg Gwan £519.71

ystyr "y flwyddyn berthnasol" ("*relevant year*") yw'r flwyddyn sy'n dechrau ag 1 Ionawr 2024 ac sy'n dod i ben â 31 Rhagfyr 2024.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i optometrydd, ac eithrio optegydd corfforedig—

(a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw'r optometrydd wedi darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau clinigol yng Nghymru (lleiafswm o 60% o wasanaethau GOC yng Nghymru yn 2024); a

(d) os yw'r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i Optometrydd-ragnodydd Annibynnol, ac eithrio optegydd corfforedig—

(a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw'r optometrydd wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 5 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(d) os yw'r optometrydd wedi darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau clinigol yng Nghymru (lleiafswm o 60% o wasanaethau GOC yng Nghymru yn 2024); ac

(e) os yw'r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(4) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i Optometrydd Retina Meddygol sy'n dal tystysgrif broffesiynol Coleg yr Optometryddion mewn retina meddygol, neu uwch dystysgrif broffesiynol y Coleg mewn retina meddygol, ac eithrio optegydd corfforedig—

(a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw'r optometrydd wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 4 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(d) os yw’r optometrydd wedi darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau clinigol yng Nghymru (lleiafswm o 60% o wasanaethau GOC yng Nghymru yn 2024); ac

(e) os yw’r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(5) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i optometrydd sy'n dal uwch dystysgrif broffesiynol Coleg yr Optometryddion mewn glawcoma, neu ddiploma proffesiynol y Coleg mewn glawcoma, ac eithrio optegydd corfforedig—

(a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae’n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a’i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw'r optometrydd wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 4 neu 5 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(d) os yw’r optometrydd wedi darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau clinigol yng Nghymru (lleiafswm o 60% o wasanaethau GOC yng Nghymru yn 2024); ac

(e) os yw’r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(6) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i optometrydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol gorfodol Golwg Gwan GOCC 3 a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ac eithrio optegydd corfforedig—

(a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae’n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a’i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw'r optometrydd wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 3 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(d) os yw’r optometrydd wedi darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau clinigol yng Nghymru (lleiafswm o 60% o wasanaethau GOC yng Nghymru yn 2024); ac

(e) os yw’r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(7) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i ymarferydd meddygol offthalmig—

(a) os, yn ystod y flwyddyn berthnasol, mai ei unig weithgarwch meddygol neu optegol am dâl oedd cynnal Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol;

(b) os yw wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae’n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a’i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(d) os yw wedi darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau clinigol yng Nghymru (lleiafswm o 60% o wasanaethau GOC yng Nghymru yn 2024); ac

(e) os yw'n cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(8) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (9) a (10), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i gontractwr, pan fo'n gymwys mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) pob cynorthwyydd a gyflogir gan y contractwr hwnnw os yw'r cynorthwyydd—

(i) yn optometrydd (ac eithrio optegydd corfforedig);

(ii) wedi ei gynnwys yn rhestr atodol y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r contractwr yn gwneud hawliad am lwfans DPP iddo;

(iii) wedi helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol a/neu wasanaethau archwilio llygaid am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(iv) wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 3, 4 neu 5 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(v) wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol; a

(vi) wedi darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau clinigol yng Nghymru (lleiafswm o 60% o wasanaethau GOC yng Nghymru yn 2024);

(b) pob optegydd cyflenwi ac optegydd lensys cyffwrdd a gyflogir gan y contractwr hwnnw os yw'r optegydd cyflenwi neu'r optegydd lensys cyffwrdd hwnnw—

(i) yn cael ei gyflogi gan gontractwr sydd wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r contractwr yn gwneud hawliad am lwfans DPP iddo;

(ii) wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol; a

(iii) wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 3 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(iv) wedi darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau clinigol yng Nghymru (lleiafswm o 60% o wasanaethau GOC yng Nghymru yn 2024); a

(v) bod y contractwr yn cydymffurfio ag is-baragraffau (10) ac (11).

(9) Dim ond un lwfans DPP y caniateir ei hawlio mewn cysylltiad ag unrhyw un person. O dan amgylchiadau pan gaiff mwy nag un o wasanaethau GOCC 1, 2, 3, 4 neu 5 eu darparu, dim ond un hawliad am y lwfans DPP y dylid ei wneud, yn unol â'r swm uchaf sy'n berthnasol i gymhwyster y person a'r gwasanaethau a ddarperir.

(10) Pan fo cynorthwyydd neu optegydd cyflenwi yn cael ei gyflogi gan ddau neu ragor o gontractwyr, caiff y lwfans DPP ei dalu i'r contractwr y mae'r cynorthwyydd neu'r optegydd cyflenwi yn ei enwebu at ddiben talu'r lwfans DPP o dan y penderfyniad hwn.

(11) Rhaid i hawliad am lwfans DPP gael ei wneud yn ysgrifenedig ar y ffurflen a gymeradwyir at y diben hwn gan Weinidogion Cymru.

(12) Rhaid llenwi ffurflen hawlio ar wahân ar gyfer pob lwfans DPP a hawlir.

## Rhan 4

Ffioedd cydweithredfeydd optometreg

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu'r swm o £288.18 i gontractwr-

(a) os yw'r contractwr wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw, a

(b) os yw'r contractwr yn mynd i un o gyfarfodydd y gydweithredfa optometreg berthnasol.

(2) Ni chaniateir talu mwy na £1,152.72 i gontractwr o dan is-baragraff (1) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu'r swm o £2,288 i gontractwr mewn cysylltiad â chynorthwyydd a gyflogir gan y contractwr hwnnw sydd wedi ei ethol fel arweinydd optometreg gan gydweithredfa optometreg i'w chynrychioli o fewn clwstwr gofal sylfaenol.

(4) Ni chaniateir talu mwy na £2,288 i gontractwr o dan is-baragraff (3) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

## Rhan 5

**9.** Grant Ymarfer (Tystysgrif Broffesiynol Uwch GOCC 4 mewn Glawcoma)

(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu'r swm o £125 y sesiwn (£250 y diwrnod) i gontractwr-

(a) os yw'r contractwr wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw, a

(b) os yw'r contractwr yn rhyddhau optometrydd sy'n ymgymryd â lleoliadau clinigol er mwyn ennill Tystysgrif Broffesiynol Uwch Coleg yr Optometryddion mewn Glawcoma.

(2) Ni chaniateir talu mwy na £5,000 i gontractwr o dan is-baragraff (1) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

**10.** Grant Ymarfer (Tystysgrif Broffesiynol Uwch GOCC 4 mewn Retina Meddygol)

(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu'r swm o £125 y sesiwn (£250 y diwrnod) i gontractwr-

(a) os yw'r contractwr wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw, a

(b) os yw'r contractwr yn rhyddhau optometrydd sy'n ymgymryd â lleoliadau clinigol er mwyn ennill Tystysgrif Broffesiynol Uwch Coleg yr Optometryddion mewn Retina Meddygol.

(2) Ni chaniateir talu mwy na £5,000 i gontractwr o dan is-baragraff (1) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

## Rhan 6

Ansawdd ar gyfer Optometreg

**11.** – (1) Bydd Cynllun Ansawdd ar gyfer Optometreg 2025/26 yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (Adroddiadau misol)
- Hunanasesiad gwella ansawdd a llywodraethiant (ffurflen flynyddol)

- Cynnal a chyflwyno Archwiliadau/Mewnwelediadau Gwasanaeth GOCC (Uchafswm o dri ym mhob blwyddyn ariannol)
- Hyfforddiant gorfodol (Yn ôl yr angen)

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu i'r contractwr swm o

(3) £5,200 mewn rhandaliadau chwarterol o £1,300 am ddarparu gwasanaeth Sylfaenol-

(a) os yw'r contractwr wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw, a

(b) os yw'r contractwr yn cwblhau pob elfen o'r Cynllun Ansawdd ar gyfer Optometreg.

(4) Ni chaniateir talu mwy na £5,200 i gontractwr o dan is-baragraff (3) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

(5) £4,800 mewn rhandaliadau chwarterol o £1,200 am ddarparu gwasanaeth lefel Arian-

(a) os yw'r contractwr wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw, a

(b) os yw'r contractwr yn cwblhau pob elfen o'r Cynllun Ansawdd ar gyfer Optometreg.

(6) Ni chaniateir talu mwy na £4,800 i gontractwr o dan is-baragraff (5) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

## RHAN 7

DIRYMIADAU

**12.** Mae'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd a ddaeth i rym ar 7 Chwefror 2025 wedi ei ddirymu.



**Llofnodwyd gan Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**10 Tachwedd 2025**